Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

| | |
|---|---|
| **Cynhaliwyd:** | **13 Chwefror 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **David Shiel** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **David Shiel - Swyddog AHNE Cynorthwyol** |
| **Teitl:** | **Derbyn fersiwn ddrafft Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a phenderfynu ymgynghori'n allanol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad yw hwn ynglŷn â mabwysiadu fersiwn ddrafft Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen cytundeb er mwyn ymgynghori'n allanol ynghylch fersiwn ddrafft y Cynllun.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo fersiwn ddrafft y Cynllun Rheoli ac yn ei chymeradwyo er mwyn ymgynghori'n gyhoeddus yn ei chylch.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Adolygiad yw fersiwn ddrafft y Cynllun Rheoli o Gynllun Rheoli 2009 ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, ond ei fod bellach yn cynnwys ardal Dyffryn Dyfrdwy a ddynodwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 2011. Cafodd ei pharatoi yn dilyn ymgynghori â phartneriaid a budd-ddeiliaid allweddol. Mae'r broses o gynllunio'r drefn reoli wedi cynnwys cynnal gweithdai ymgynghori ym meysydd yr Amgylchedd Naturiol, yr Amgylchedd Hanesyddol, Mynediad a Thwristiaeth a Chynllunio a Datblygu gan ymgysylltu â chyrff proffesiynol a sefydliadau sydd â diddordeb yn y broses

Mae'r cynllun yn dynodi Priodweddau a Nodweddion Arbennig Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac yn amlinellu cyfres o Bolisïau ar gyfer datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun harddwch naturiol. Mae'n cydnabod y manteision y mae cymeriad arbennig y dirwedd yn eu cyfrannu i gymunedau ac economïau y tu mewn a'r tu allan i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Drwy gyfrwng Adroddiad Cyflwr yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol mae fersiwn ddrafft y Cynllun Rheoli yn gwneud asesiad o'r materion a'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gymeriad arbennig yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac yn cynnwys Cynllun Gweithredu 5 mlynedd sy'n gweithio tuag at sicrhau bod yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gallu parhau i gyflawni gwasanaethau allweddol sy'n cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Bydd fersiwn ddrafft y Cynllun Rheoli drafft yn disodli'r cynllun presennol y dylid bod wedi ei adolygu yn 2014. Bydd yn gosod rhaglen waith yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol tan 2019.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Cyflawnir y Cynllun Rheoli o fewn trefniadau'r gyllideb bresennol

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd o effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid atodi templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Atodiad 6

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Paratowyd y cynllun yn dilyn gweithdai gyda budd-ddeiliaid allweddol o blith grwpiau arbenigol a grwpiau buddiant.

Cymeradwywyd drafft cynharach o'r cynllun gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol Dros Dro yn Rhagfyr 2014.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

"Fel y nodir uchod caiff y Cynllun Rheoli ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol a bydd hefyd o gymorth i ddiogelu lefelau ariannu allanol presennol sy'n ffurfio rhan o gyllideb arfaethedig yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol."

**10. Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynllun Rheoli ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
**Ariannol** – Byddai methu â mabwysiadu Cynllun efallai yn peryglu cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.
**Enw da** - Mae risg i enw da wrth beidio â mabwysiadu cynllun ac wrth fethu â chyflawni rhwymedigaeth statudol i wneud hynny.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynllun Rheoli ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol o fewn eu ffiniau.
Mae gan y Cydbwyllgor a sefydlwyd dan adran 101(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 y pŵer i weithredu ar ran awdurdodau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam wrth gyflawni'r ddyletswydd hon.